**Dinas a Sir Abertawe**

**Cofnodion Cyfarfod Y Cyngor**

**O bell drwy Microsoft Teams**

**Dydd Iau, 4 Tachwedd 2021 am 5.00 pm**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd D W W Thomas (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

**Y Cynghorydd(wyr)**
C Anderson
P M Black
J E Burtonshaw
M C Child
J P Curtice
N J Davies
A M Day
P Downing
C R Doyle
M Durke
C R Evans
V M Evans
W Evans
E W Fitzgerald
R Francis-Davies
S J Gallagher
L S Gibbard
F M Gordon
K M Griffiths
J A Hale
D W Helliwell
T J Hennegan

**Y Cynghorydd(wyr)**
C A Holley
B Hopkins
D H Hopkins
O G James
Y V Jardine
J W Jones
L R Jones
M H Jones
M Jones
P K Jones
E J King
E T Kirchner
M A Langstone
H Lawson
A S Lewis
M B Lewis
W G Lewis
C E Lloyd
P Lloyd
I E Mann
P M Matthews
P N May

**Y Cynghorydd(wyr)**
H M Morris
D Phillips
C L Philpott
S Pritchard
A Pugh
C Richards
K M Roberts
B J Rowlands
M Sherwood
R V Smith
R C Stewart
D G Sullivan
G J Tanner
M Thomas
L G Thomas
W G Thomas
L J Tyler-Lloyd
G D Walker
L V Walton
T M White

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Jeffrey Dong | Dirprwy Brif Swyddog Cyllid / Dirprwy Swyddog Adran 151 |
| Huw Evans | Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd |
| Adam Hill | Dirprwy Brif Weithredwr/Cyfarwyddwr Adnoddau |
| Tracey Meredith | Prif Swyddog Cyfreithiol |
| Phil Roberts | Prif Weithredwr |
| Ben Smith | Prif Swyddog Cyllid / Swyddog Adran 151 |
| Martin Nicholls | Cyfarwyddwr Lleoedd |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**

Y Cynghorydd(wyr): P R Hood-Williams, L James, S M Jones, J A Raynor a/ac A H Stevens

## 59. Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.

Rhoddodd y Prif Swyddog Cyfreithiol gyngor ynghylch y buddiannau personol a rhagfarnol posib y gallai fod gan gynghorwyr a swyddogion ar eitemau ar yr agenda.

Atgoffodd Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd gynghorwyr a swyddogion y dylid llenwi'r daflen "Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol" dim ond os oes gan y cynghorydd/swyddog gysylltiad i'w ddatgan. Nid oes angen dychwelyd ffurflenni os nad oes unrhyw beth i'w ddatgan. Hysbyswyd cynghorwyr a swyddogion hefyd y dylid datgan unrhyw fudd ar lafar ac yn ysgrifenedig ar y daflen.

Yn unol â darpariaethau'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, datganwyd y buddiannau canlynol:

1) Datganodd y Cynghorwyr C Anderson, P M Black, M C Child, J P Curtice, N J Davies, P Downing, M Durke, V M Evans, W Evans, S J Gallagher, F M Gordon, K Griffiths, M Jones, E J King, A S Lewis, M B Lewis, C Lloyd, P Lloyd, P M Matthews, C L Philpott, C R Richards, K M Roberts, B J Rowlands, M Sherwood, R C Stewart, D G Sullivan, G J Tanner, M Thomas, W G Thomas, L V Walton, G D Walker, T M White gysylltiad personol â Chofnod 69 "Diwygiad i Gytundeb Rhyng-Awdurdod (IAA) Partneriaeth Pensiwn Cymru (PPC), y Diweddaraf am Berfformiad Ariannu a Buddsoddi a’r Diweddaraff am y Risg o Newud yn yr Hinsawdd".

2) Datganodd Jeff Dong, Adam Hill, Tracey Meredith, Martin Nicholls a Ben Smith gysylltiad personol a rhagfarnol â chofnod 64 “Cwestiynau gan y Cyhoedd” a thynnon yn ôl o'r cyfarfod cyn iddo gael ei ystyried.

3) Datganodd Jeff Dong, Adam Hill, Tracey Meredith, Martin Nicholls a Ben Smith gysylltiad personol a rhagfarnol â chofnod 65 “Strwythur Uwch-reolwyr” a thynnon yn ôl o'r cyfarfod cyn iddo gael ei ystyried.

## 60. Cofnodion.

**Penderfynwyd** cymeradwyo'r cofnodion canlynol a'u llofnodi fel cofnod cywir:

1) Cyfarfod Cyffredin y cyngor a gynhaliwyd ar 7 Hydref 2021.

## 61. Ymatebion ysgrifenedig i gwestiynau a ofynnwyd yng Nghyfarfod Cyffredinol Diwethaf y Cyngor.

Ni chafwyd ymatebion ysgrifenedig i gwestiynau a ofynnwyd yng nghyfarfod cyffredin diwethaf y cyngor.

## 62. Cyhoeddiadau'r Aelod Llywyddol.

### a) Cydymdeimladau

#### i) Cyn-gynghorydd a'r Henadur Anrhydeddus Susan Waller Thomas

Mynegodd yr Aelod Llywyddol ei dristwch wrth gyfeirio at farwolaeth ddiweddar y cyn-gynghorydd a'r Henadur Anrhydeddus Susan Waller Thomas. Cynrychiolodd Susan Ward Newton am tua 25 mlynedd, gan wasanaethu:

- Cyngor Dinas Abertawe – 1986-1996.
- Dinas a Sir Abertawe – 1995-2010.

Susan oedd yr Arglwydd Faer rhwng 2007 a 2008 a chyn-lywydd Dinas a Sir Abertawe.

**ii) Y Cyn-gynghorydd Linda Wixey**

Mynegodd yr Aelod Llywyddol ei dristwch wrth gyfeirio at farwolaeth ddiweddar y Cyn-gynghorydd Linda Wixey. Cynrychiolodd Linda Ogledd Sgeti am tua 4 blynedd, gan wasanaethu:

- Cyngor Sir Gorllewin Morgannwg 1990-1995.

Eisteddodd pawb yn dawel fel arwydd o gydymdeimlad a pharch.

**b) Gwobrau Buddsoddi CPALl 2021**

Roedd yn bleser gan yr Aelod Llywyddol gyhoeddi bod Cronfa Bensiwn Dinas a Sir Abertawe wedi cyrraedd y rhestr fer yng ngwobrau CPALl (Cronfeydd Pensiwn Awdurdodau Lleol (CPLlL)) eleni am 3 gwobr. Cyhoeddir yr enillwyr ar 15 Rhagfyr 2021. Y categorïau yw:

- Cronfa Bensiwn y Flwyddyn (asedau > £2.5bn).
- Y Strategaeth Newid yn yr Hinsawdd Orau.
- Y Newyddbeth Buddsoddi Gorau.

**c) Parch at Ecwilibriwm**

Dywedodd yr Aelod Llywyddol fod Abertawe wedi dod yn un o'r awdurdodau lleol cyntaf yng Nghymru i ddatblygu a gweithredu ei rhaglen cyflawnwyr cam-drin domestig achrededig ei hun. Mae Ecwilibriwm wedi ennill achrediad nodedig gan *Respect* - sefydliad cenedlaethol blaenllaw ar gam-drin domestig.

Er mwyn cyflawni hyn, bu'n rhaid i'r Tîm Ecwilibriwm fynd trwy broses sicrhau ansawdd hynod fanwl, a gydnabyddir yn genedlaethol, sy'n sicrhau bod tystiolaeth o arferion gwaith gorau drwy gydol y rhaglen.

Diolchodd yr Aelod Llywyddol i bawb am eu gwaith a'u cyflawniad.

## 63. Cyhoeddiadau Arweinydd y Cyngor.

**a) Ironman 70.3 Abertawe. Hanner Treiathlon Ironman**

Dywedodd Arweinydd y Cyngor fod ras agoriadol Hanner Treiathlon Ironman 70.3 Abertawe wedi'i threfnu ar gyfer 7 Awst 2022.

Bydd athletwyr sy'n cymryd rhan yn Ironman 70.3 Abertawe'n nofio 1.2 milltir (1.9km), yn beicio ar hyd cwrs 56 milltir (90km) o hyd ac yna'n rhedeg hanner marathon, 13.1 milltir (21.1km) o hyd.

**b) Rhagor o arian ar gyfer y Gronfa Adfer**

Dywedodd Arweinydd y Cyngor y byddai £5m ychwanegol yn cael ei ychwanegu at y Gronfa Adfer. Roedd yr arian ychwanegol hwn yn cynnwys £1.9m ar gyfer Ardaloedd Chwarae a Lleoedd Chwarae. Mae'r ymrwymiad yn golygu y codir pob ardal/lle chwarae yn Abertawe, ar draws yr holl Wardiau Etholiadol, i'r safon chwarae gwyrdd. Mae hyn hefyd yn cynnwys clustnodi hyd at £500,000 i gyfleusterau sglefrio ledled Abertawe.

**c) Eden Las**

Cyfeiriodd Arweinydd y Cyngor at y prosiect Eden Las arfaethedig, a oedd yn cynnwys morlyn llanw. Byddai'r prosiect hefyd yn cynnwys ffatri batris, canolfan ddata a phaneli solar arnofiol mwyaf yn y DU. Bydd y gwres o'r ganolfan ddata'n cael ei ddefnyddio i wresogi tai lleol.

**d) Parc Sglefrio. Datganiad o Gysylltiadau**

Dywedodd Arweinydd y Cyngor na fyddai'n cymryd rhan yn yr eitem oedd ar ddod yn ymwneud â Pharc Sglefrio'r Mwmbwls yn y Cabinet, yn dilyn cyngor gan y Swyddog Monitro.

**64. Cwestiynau gan y Cyhoedd.**

Cyflwynwyd nifer o gwestiynau.

a) Gofynnwyd cwestiwn gan James McGettrick mewn perthynas â Chofnod 73 "Cwestiynau'r Cynghorwyr" - Cwestiwn 3”.

Ymatebodd Aelod y Cabinet dros Gyflawni a Gweithrediadau.

b) Gofynnodd Neil Jones gwestiwn mewn perthynas â Chofnod 69 "Diwygiad i Gytundeb Rhyng-awdurdod (CRhA) Partneriaeth Pensiwn Cymru (PPC), y Diweddaraf am Berfformiad Ariannu a Buddsoddi a'r Diweddaraf am y Risg o Newid yn yr Hinsawdd".

Dywedodd Cadeirydd Pwyllgor y Gronfa Bensiwn y byddai ymateb ysgrifenedig yn cael ei ddarparu.

c) Gofynnodd Nortridge Perrot gwestiynau mewn perthynas â:

i) Cofnod 75 "Hysbysiad o Gynnig – Argyfwng Natur".

Ymatebodd y Swyddog Adran 151.

ii) Cofnod 68 "Adroddiad Blynyddol Rheoli'r Trysorlys 2020/21".

Ymatebodd y Swyddog Adran 151.

iii) Cofnod 65 "Strwythur Uwch-reolwyr".

Ymatebodd y Prif Weithredwr.

## 65. Strwythur Uwch-reolwyr.

Cyflwynodd y Prif Weithredwr adroddiad a oedd yn gofyn am gymeradwyaeth mewn perthynas â'r Strwythur Uwch-reolwyr newydd ar gyfer y cyngor.

**Penderfynwyd** ar y canlynol:

1) Caiff y strwythur a nodir yn Atodiad 2 (a pharagraff 2.1.5) o'r adroddiad yn amodol ar yr ymgynghoriad a nodir yn yr adroddiad, ei gymeradwyo.

2) Awdurdodir y Prif Weithredwr i ymgynghori â'r holl staff yr effeithir arnynt.

3) Yn amodol ar 2) uchod, nad yw'n nodi unrhyw newidiadau sylweddol, awdurdodir y Prif Weithredwr i roi’r strwythur ar waith.

4) Cymeradwyir penodi Prif Weithredwr dros dro ar sail fewnol, wedi'i glustnodi i Gyfarwyddwyr presennol.

5) Caiff taliad y Prif Weithredwr dros dro ei gymeradwyo fel yr un taliad cydnabyddiaeth â'r Prif Weithredwr presennol.

6) Cymeradwyo'r gwaith o gomisiynu adolygiad cyflog a graddio ar gyfer Cyfarwyddwyr a Phenaethiaid Gwasanaeth.

## 66. Diweddariad ar y Cynllun Hawliau Plant a Phobl Ifanc.

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros Wasanaethau Plant adroddiad a oedd yn ceisio cymeradwyo Cynllun Hawliau Plant a Phobl Ifanc Abertawe yn dilyn ymgynghoriad a chytuno i barhau â dull cydgynhyrchiol o ymdrin â mecanweithiau ar gyfer gwrando ar blant a phobl ifanc.

**Penderfynwyd** ar y canlynol:

1) Caiff canlyniadau'r Ymgynghoriad yn Atodiad 2 eu nodi.

2) Caiff Cynllun Hawliau Plant Abertawe yn Atodiad 1 yr adroddiad ei gymeradwyo.

3) Cytunir i sefydlu 6 fforwm cydgynhyrchiad i weithio gyda phlant a phobl ifanc ar themâu a nodwyd fel blaenoriaethau fel rhan o'r ymgynghoriad.

4) Cytunir i barhau â'r sgyrsiau a chydgynhyrchiad gyda phlant a phobl ifanc a rhanddeiliaid eraill i ychwanegu manylion at weithrediad pob fforwm cydgynhyrchu.

## 67. Datganiad cyllideb canol blwyddyn 2021/22.

Rhoddodd y Swyddog Adran 151 ddiweddariad llafar ar Ddatganiad Cyllideb Canol Tymor 2021-2022.

## 68. Adroddiad Blynyddol Rheoli'r Trysorlys 2020/21

Cyflwynodd y Swyddog 151 adroddiad 'er gwybodaeth' a oedd yn manylu ar weithgareddau Rheoli Trysorlys y cyngor yn ystod 2020-21 ac yn cymharu perfformiad gwirioneddol yn erbyn y strategaeth a luniwyd ar ddechrau'r flwyddyn.

## 69. Diwygiad i Gytundeb Rhyng-Awdurdod (IAA) Partneriaeth Pensiwn Cymru (PPC) Diweddariad ar Berfformiad Cyllid a Buddsoddi, a Diweddariad ar Risg Newid yn yr Hinsawdd

Cyflwynodd Cadeirydd Pwyllgor y Gronfa Bensiwn adroddiad a oedd yn gofyn am gymeradwyaeth i ddiwygio Cytundeb Rhyng-awdurdod (CRhA) Partneriaeth Pensiwn Cymru, a gymeradwywyd yn flaenorol, i ymgorffori trefniadau llywodraethu diwygiedig sy'n caniatáu i gynrychiolydd aelod o'r cynllun fod ar y Cyd-bwyllgor Llywodraethu (CBLl), ynghyd â newidiadau gweithredol eraill a nodwyd, ac i hysbysu'r cyngor o sefyllfa ariannu'r gronfa bensiwn a pherfformiad buddsoddi a chynnydd diweddar yn erbyn lleihau'r risg o newid yn yr hinsawdd yn y portffolio buddsoddi.

**Penderfynwyd** ar y canlynol:

1) Cymeradwyo'r Cytundeb Rhyng-awdurdod diwygiedig (CRhA) a atodwyd yn Atodiad 1 yr adroddiad.

2) Nodi'r sefyllfa ariannu a'r perfformiad buddsoddi yn Adran 4 yr adroddiad, a'r cynnydd o ran mynd i'r afael â'r risg newid yn yr hinsawdd a'r daith i ddod yn Sero-net o fewn ei bortffolio buddsoddi yn adrannau 5-10 o'r adroddiad hwn.

## 70. Council Procedure Rule 4 "Smoking / Refreshments / Mobile Phones / Comfort Break

Yn unol â Rheol 4 Gweithdrefn y Cyngor gohiriodd yr Aelod Llywyddol y cyfarfod er mwyn hwyluso egwyl o 10 munud.

## 71. Rhaglen Sefydlu a Hyfforddi Cynghorwyr 2022.

Cyflwynodd Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd adroddiad a oedd yn ceisio mabwysiadu Rhaglen Sefydlu a Hyfforddi Cynghorwyr 2022.

**Penderfynwyd** ar y canlynol:

1) Cytuno ar y meysydd hyfforddi gorfodol a amlinellir ym Mharagraff 3 o'r adroddiad.

2) Mabwysiadwyd Rhaglen Sefydlu a Hyfforddi Cynghorwyr 2022.

3) Bydd Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd yn gweithio gyda'r TRhC i bennu darparwr hyfforddiant, dyddiad, lleoliad ac amser sefydlu a hyfforddi Cynghorwyr.

## 72. Newidiadau i'r Cyfansoddiad.

Cyflwynodd yr Aelod Llywyddol, y Swyddog Monitro a Phennaeth y Gwasanaethau Democrataidd adroddiad gwybodaeth ar y cyd a oedd yn ceisio gwneud diwygiadau er mwyn symleiddio, gwella a/neu ychwanegu at Gyfansoddiad y Cyngor.

Mae adran 60 o Ddeddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) Cymru 2013 yn diwygio Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 mewn perthynas â Phwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd.

O ganlyniad i'r newid deddfwriaethol hwn, ychwanegwyd y canlynol at Gylch Gorchwyl Pwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd:

*i)* *"Ar gais yr Awdurdod Lleol, gall Pwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd adolygu unrhyw fater sy'n berthnasol i'r:*

*a)* *Cymorth a'r cyngor sydd ar gael i Aelodau'r Awdurdod*

b) *Amodau a thelerau swydd yr Aelodau hynny."*

## 73. Cwestiynau gan y Cynghorwyr - Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd.

### 1) 'Cwestiynau Atodol' Rhan A

Cyflwynwyd saith (7) 'Cwestiwn Atodol' Rhan A. Ymatebodd Aelod(au) perthnasol y Cabinet ar ffurf atebion ysgrifenedig a gynhwyswyd yng Ngŵŷs y Cyngor.

Dangosir y cwestiynau atodol hynny yr oedd angen ymateb ysgrifenedig arnynt isod.

**Cwestiwn 2**

i) Cyfeiriodd y Cynghorydd C A Holley at y dudalen Facebook yn honni nad oedd plant sy'n byw yn Dan-y-Coed yn derbyn y gofal a'r addysg sydd eu hangen arnynt. Gofynnodd pa gamau a gymerwyd o ganlyniad i hyn?

Dywedodd Aelod y Cabinet dros y Gwasanaethau Plant y byddai ymateb ysgrifenedig yn cael ei ddarparu.

ii) Cyfeiriodd y Cynghorydd M H Jones at y Cynllun Gwella a oedd ar waith a gofynnodd a oedd yr Aelod Cabinet yn hapus â'r cynllun, ac a oedd yn teimlo bod y cyngor yn cael gwerth am arian?

Dywedodd Aelod y Cabinet dros y Gwasanaethau Plant y byddai ymateb ysgrifenedig yn cael ei ddarparu.

**Cwestiwn 3**

Gofynnodd y Cynghorydd A M Day pryd y byddai'r adroddiad ar gael?

Dywedodd Aelod y Cabinet dros Gyflawni a Gweithrediadau y byddai ymateb ysgrifenedig yn cael ei ddarparu.

**Cwestiwn 5**

Gofynnodd y Cynghorydd C A Holley gwestiwn mewn perthynas â'r Cynllun Prentisiaeth.

Dywedodd Arweinydd y Cyngor y byddai adroddiad yn ymwneud â'r Cynllun Prentisiaeth yn cael ei gyflwyno i'r cyngor maes o law.

**2) ‘Cwestiynau nad oes angen Cwestiynau Atodol ar eu cyfer' Rhan B**

Cyflwynwyd chwe (6) 'chwestiwn nad oedd angen Cwestiynau Atodol' ar eu cyfer Rhan B.

**74. Rhybudd o Gynnig - Siarter Undod Dros Adran.**

Cynigiwyd gan y Cynghorydd A Pugh a'i eilio gan y Cynghorydd R C Stewart.

*"Mae'r newidiadau cymdeithasol a gwleidyddol enfawr y mae'r wlad wedi'u gweld dros y blynyddoedd diwethaf wedi arwain at ymraniad cymdeithasol mawr, yn enwedig mewn perthynas â hil, ethnigrwydd, crefydd a chenedligrwydd. Un o ganlyniadau mwyaf pryderus hyn yw'r cynnydd sydyn mewn troseddau casineb hiliol, sydd wedi cynyddu bron 30% ers 2016. Mae gwahaniaethu ac anoddefgarwch hiliol yn annerbyniol mewn cymdeithas fodern, a dylem ymrwymo i ddod at ein gilydd a'u dileu yn eu holl ffurfiau.*

*Byddai mabwysiadu'r Siarter Undod dros Ymraniad yn fan cychwyn ar gyfer yr hyn a fydd, gobeithio, yn ymagwedd fwy rhagweithiol o adeiladu gweithle cynhwysol.*

*Ac felly, rydym ni' r Aelodau Etholedig a enwir uchod yn gofyn i Gyngor Abertawe:*

*1. Fabwysiadu'r Siarter Undod dros Ymraniad.*

*2. Bydd Cyngor Abertawe'n penodi Hyrwyddwr Cynhwysiad a fydd y person*

*arweiniol ar gyfer agenda'r Siarter Undod dros Ymraniad, gyda chefnogaeth Undebau Llafur a'r cyngor i gydweithio, monitro, hwyluso a hyrwyddo cynhwysiad yn y gweithle lle bynnag y bo modd.*

3. *Bydd Cyngor Abertawe'n sicrhau bod pob aelod o staff, gan gynnwys ysgolion, yn cael hyfforddiant gorfodol ar sut i gadw at Bolisi Cydraddoldeb ac Amrywiaeth y cyngor a bydd yn sicrhau bod y ddogfen hon yn cael ei hadolygu'n flynyddol.*

4. *Bydd Cyngor Abertawe'n cydweithio ag Undebau Llafur i ddarparu deunyddiau addysgiadol a chyfredol y bwriedir iddynt helpu i hyrwyddo cydraddoldeb a chytgord yn y gweithle.*

5. *Bydd Abertawe'n sefyll ynghyd ag Undebau Llafur i gondemnio digwyddiadau lle ceir enghreifftiau lleol a chenedlaethol o droseddau casineb a gwahaniaethu.*

6. *Bydd Cyngor Abertawe'n gweithio gyda'r holl asiantaethau a sefydliadau priodol eraill i hyrwyddo cydlyniant y tu mewn a'r tu allan i'r gweithle".*

**Penderfynwyd** mabwysiadu'r Hysbysiad o Gynnig a amlinellir uchod.

## 75. Rhybudd o Gynnig - Argyfwng Natur.

Cynigiwyd gan y Cynghorydd P K Jones a'i eilio gan y Cynghorydd R C Stewart.

*"Mae'r cyngor hwn yn nodi gyda braw ei fod yn fater brys i gymryd camau cryf, perthnasol ac uniongyrchol i atal a lleihau graddfa ac effeithiau colli bioamrywiaeth a newid yn yr hinsawdd yn fyd-eang, a achosir gan fodau dynol, ar ddynolryw a bywyd gwyllt.*

*Mae'r cyngor hefyd yn nodi methiant gwledydd ar draws y byd (gan gynnwys y DU) i gyflawni bron pob un o nodau datblygu cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig, gan gynnwys bioamrywiaeth, a bennwyd yn 2010, sydd bellach i'w hadolygu yn COP 15 ym mis Hydref yn Kunming, Tsieina – Llwyfan Rhynglywodraethol ar Fioamrywiaeth ac Ecosystemau (IPBES).*

*Rydym yn wynebu argyfwng hinsawdd ac ecolegol lleol a byd-eang rhyngberthynol, gyda 17% o rywogaethau Cymru mewn perygl o ddiflannu. Ond gallwn newid hyn drwy adfer byd natur, a fydd hefyd yn helpu i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd.*

*Ar 30 Mehefin 2021, Llywodraeth Cymru oedd un o'r seneddau cyntaf yn y byd i ddatgan argyfwng natur. Cyhoeddodd y Gweinidog dros Newid yn yr Hinsawdd, Julie James AS, mai 'adfer natur a lliniaru effaith newid yn yr hinsawdd yw prif flaenoriaethau'r llywodraeth hon'.*

*Datganodd Cyngor Abertawe argyfwng hinsawdd ym mis Mehefin 2019 ac ers hynny mae wedi bod yn datblygu Cynllun Gweithredu Newid yn yr Hinsawdd ar gyfer y cyngor ac ar gyfer Abertawe gyfan, mewn cydweithrediad â Fforwm Amgylcheddol Abertawe a rhanddeiliaid eraill.*

*Mae'r cyngor hwn yn cydnabod bod colli bioamrywiaeth yr un mor ddifrifol â newid yn yr hinsawdd i'n goroesiad yn y dyfodol – mae natur yn cyfrannu cymaint i'n byd, yn ymarferol ac o ran gwasanaethau*u ecosystemau – dal a storio carbon, rheoli dŵr ffres, rheoli pridd, rheoli llygredd aer, cysgod, oeri ac atal llifogydd, planhigion bwyd, meddyginiaethau – a hefyd o ran harddwch naturiol sy'n effeithio ar iechyd meddwl a lles.

*Felly, i gefnogi datganiad Llywodraeth Cymru o argyfwng natur, fod y cyngor yn datgan argyfwng natur ac yn ymrwymo'n llawn i baratoi a chyflwyno Cynllun Gweithredu Adfer Natur i'w weithredu ochr yn ochr â'r Cynllun Gweithredu Hinsawdd sy'n datblygu.*

*Mae llawer o waith eisoes yn cael ei wneud:*

- *Mae'r cyngor wedi cynnwys amcan lles sy'n flaenoriaeth gorfforaethol ar gyfer adfer natur yn ei Gynllun Corfforaethol ar gyfer 2020-2022.*
- *Mae wedi cefnogi'r gwaith o gyflawni'r amcan 'Gweithio gyda Natur' yng Nghynllun Lles Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Abertawe.*
- *Mae'r cyngor wedi sefydlu Bwrdd Rhaglen Newid yn yr Hinsawdd a Natur a Gr*ŵp Llywio i sicrhau bod y ddau fater yn cael eu hystyried yn llawn ar draws holl gynlluniau a phrosiectau meysydd gwasanaeth.
- *Rydym wedi penodi Swyddog Bioamrywiaeth rhan-amser, i weithio ar y cyd â holl wasanaethau'r cyngor, i sicrhau cydymffurfiaeth â dyletswydd bioamrywiaeth Deddf yr Amgylchedd (Cymru) ac i fonitro a chofnodi cynnydd, yn ogystal â darparu cyngor a chymorth ar gyfer paratoi a chyflawni Cynllun Gweithredu Adran 6.*
- *Rydym yn darparu rôl arweiniol o ran cydlynu a chefnogi'r Bartneriaeth Natur Leol (PNL) sydd â thros 97 o aelodau o sefydliadau bywyd gwyllt lleol a sefydliadau eraill, sy'n dymuno cyfrannu at adferiad natur.*
- *Rydym hefyd yn cyflogi swyddog PNL rhan-amser dros dro a fydd yn cydlynu'r gwaith o baratoi Cynllun Gweithredu Adfer Natur Lleol.*

*Fodd bynnag, er bod llawer o waith da'n cael ei wneud a llawer o gynnydd yn cael ei wneud,* ***mae angen i ni wneud mwy.***

*Mae maint yr her yn gofyn am fwy o flaenoriaethu, ymrwymiad ac adnoddau ychwanegol i sicrhau ein bod yn cyrraedd ein targedau i wrthdroi dirywiad bioamrywiaeth.*

*Gallai camau gweithredu penodol gynnwys:*

- *Cynnal a chryfhau ein blaenoriaeth gorfforaethol ar gyfer adnoddau naturiol a bioamrywiaeth gan gynnwys Newid yn yr Hinsawdd.*
- *Adnewyddu Siarter Hinsawdd Abertawe i ddod yn Siarter Hinsawdd a Natur integredig.*
- *Ehangu cylch gorchwyl ac aelodaeth y grŵp llywio newid yn yr hinsawdd presennol i gynnwys natur a bioamrywiaeth a dod yn Grŵp Llywio Newid yn yr Hinsawdd a Natur.*

- *Parhau i gydweithio â'r Bartneriaeth Natur Leol (PNL) a rhwydweithiau allweddol eraill ledled Cymru i wneud mwy o le i alluogi natur i ddod yn doreithiog eto. Mae'r PNL yn cynnwys cyrff anllywodraethol cadwraeth natur gweithredol, fel yr RSPB, yr Ymddiriedolaethau Natur, Plantlife a Buglife yn ogystal ag asiantaethau statudol a chyrff ymchwil, megis Cyfoeth Naturiol Cymru a Phrifysgol Abertawe.*
- *Cynyddu'n gwaith gyda grwpiau cymunedol lleol ac ysgolion i annog cynifer o breswylwyr â phosib yn Abertawe i ymwneud â chynnal a gwella bywyd gwyllt lleol.*
- *Ceisio cymorth pellach gan lywodraethau'r DU a Chymru i roi'r pwerau a'r adnoddau angenrheidiol i ni er mwyn sicrhau ein bod yn cael ein grymuso i gynnal a gwella bioamrywiaeth.*
- *Chwilio am adnoddau i ddarparu cyllid refeniw a chyfalaf craidd hirdymor cynaliadwy, gan ein galluogi i wella'r gallu a'r adnoddau i gynllunio a chyflwyno strategaethau a mentrau hirdymor ar gyfer adfer natur (yn hytrach na dibynnu ar brosiectau tymor byr a ariennir gan grantiau).*

**Penderfyniad y cyngor hwn yw:**

- *Y bydd y cyngor yn datgan argyfwng natur ac yn creu Cynllun Gweithredu Newid yn yr Hinsawdd a Natur.*
- *Bydd y cyngor yn ehangu cylch gorchwyl ac aelodaeth y Bwrdd Rhaglen Newid yn yr Hinsawdd presennol a grŵp llywio'r hinsawdd i fod yn Fwrdd y Rhaglen Newid yn yr Hinsawdd a Natur ac yn y drefn honno, y Grŵp Llywio Newid yn yr Hinsawdd a Natur.*
- *Bydd y cyngor yn adnewyddu'r Siarter Newid yn yr Hinsawdd i ddod yn Siarter Hinsawdd a Natur integredig.*

*Bydd Arweinydd y Cyngor yn ysgrifennu at Brif Weinidog y DU ac at Brif Weinidog Cymru yn gofyn am adnoddau a phwerau ychwanegol i alluogi'r cyngor i gyflawni Cynllun Gweithredu llawn ac integredig ar gyfer Natur a Newid yn yr Hinsawdd".*

**Penderfynwyd** mabwysiadu'r Hysbysiad o Gynnig a amlinellir uchod.

Daeth y cyfarfod I ben am 8.27 pm

**Cadeirydd**